| | |
|---|---|
| **Dyddiad creu:** | 24/04/2018 |
| **Dyddiad cyhoeddi:** | 19/11/2018 |
| **Rhif y fersiwn:** | 1.00 |

| | |
|---|---|
| **Man Gwasanaeth:** | Is-adran Isadeiledd |
| **Man Gweithio:** | Grŵp Gweithrediadau Priffyrdd |
| **Manylion Cyswllt:** | E-bost: gweithrediadaupriffyrdd@caerffili.gov.uk |
| **Enw'r Hysbysiad Preifatrwydd:** | Gorfodi Cyfraith y Priffyrdd |
| **Disgrifiad o'r Hysbysiad Preifatrwydd:** | Bydd yr hysbysiad preifatrwydd hwn yn esbonio sut y bydd cyngor bwrdeistref sirol Caerffili yn defnyddio'r wybodaeth a gafwyd, neu rydych yn ei darparu amdanoch eich hun, sy'n gysylltiedig â'r pryder gorfodi cyfraith priffyrdd a nodwyd. |

# Sut y byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth

## Y ffynhonnell a'r math o wybodaeth a brosesir

### Categorïau o ddata personol a geir

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (CBSC) wedi cael y categorïau canlynol o'ch data personol:

- Manylion cyswllt, gan gynnwys; enw, cyfeiriad, rhif ffôn a chyfeiriad e-bost.

### Ffynhonnell y data personol

Derbyniwyd y wybodaeth hon gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili trwy'r ffynonellau canlynol:

Bydd eich cyfeiriad, a natur y tor-amod, a nodir gan ein Hadolygydd Priffyrdd fel rhan o archwiliadau arferol neu a gofnodwyd fel cwyn gan aelod o'r cyhoedd.

Lle mae ar gael, gellir casglu data personol pellach o drwyddedau / cytundebau sy'n bodoli eisoes, yn ymwneud â'r tor-amod a nodir.

## Y diben a'r sail gyfreithiol ar gyfer defnyddio eich gwybodaeth

### Diben y gwaith prosesu

Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn prosesu'r wybodaeth sy'n ymwneud â'r drosedd, eich hunaniaeth a'ch manylion cyswllt, at ddibenion gorfodi ymarfer fel yr Awdurdod Priffyrdd.

### Sail gyfreithiol ar gyfer y gwaith prosesu

Gan weithredu fel yr Awdurdod Priffyrdd, mae gan CBSC rwymedigaeth statudol i brosesu eich gwybodaeth, fel y manylir o dan Ddeddf Priffyrdd 1980 fel y manylir yn y tabl atodedig (Cyfeirnod Atodiad A).

Er mwyn i brosesu data personol fod yn gyfreithlon o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2016, mae'n rhaid nodi amod dilys o erthygl 6 o'r Rheoliad, a amlinellir isod:

1(e) mae angen prosesu ar gyfer cyflawni tasg a wnaed er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol a freiniwyd yn y rheolwr;

## Pwy fydd yn gallu cyrchu eich gwybodaeth?

### Manylion y Rheolwr Data a'r Swyddog Diogelu Data

Y Rheolwr Data ar gyfer eich gwybodaeth yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Y Swyddog Diogelu Data yw:

Ms Joanne Jones
Y Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol/Swyddog Diogelu Data
E-bost: diogeludata@caerffili.gov.uk
Ffôn: 01443 864322

Efallai y bydd Rheolwyr Data eraill hefyd yn gyfrifol am eich gwybodaeth, yn dibynnu ar yr amgylchiadau penodol. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r Maes Gwasanaeth.

### Manylion am brif ddefnyddwyr eich gwybodaeth

Bydd manylion am unrhyw bryder Gorfodi Cyfraith y Priffyrdd, a all gynnwys eich hunaniaeth, manylion cyswllt a chyfeiriad, yn cael eu dosbarthu i'r Swyddogion perthnasol yn ein Tîm Peirianneg, at ddibenion mynd i'r afael â'r tor-amod perthnasol.

### Manylion am unrhyw rannu o'ch gwybodaeth o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Gellir rhannu'r manylion am unrhyw bryder Gorfodi Cyfraith y Priffyrdd â meysydd gwasanaeth eraill â swyddogion perthnasol, er mwyn hwyluso unrhyw gamau gweithredu / ymateb posibl i'r tor-amod perthnasol.

Gall pob cofnod fod yn destun adolygiad gan swyddogion Archwilio Mewnol.

### Manylion am unrhyw rannu o'ch gwybodaeth â sefydliadau eraill

Yn dibynnu ar natur y pryder, gellir rhannu'r manylion am unrhyw Orfodi Cyfraith y Priffyrdd gyda darparwyr gwasanaethau allanol, er mwyn gweithredu camau gweithredu / ymateb priodol i'r tor-amod perthnasol.

### Ceisiadau am wybodaeth

Mae'n bosibl y bydd yr holl wybodaeth a gedwir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn destun ceisiadau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a deddfwriaeth Diogelu Data.

Os bydd yr wybodaeth a ddarperir gennych yn destun cais o'r fath, bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn ymgynghori â chi ynghylch ei rhyddhau, lle bo hynny'n bosibl.

Os byddwch yn gwrthwynebu rhyddhau eich gwybodaeth, byddwn yn cadw'r wybodaeth yn ei hôl, os bydd y ddeddfwriaeth berthnasol yn caniatáu i hynny ddigwydd.

## Am ba hyd y byddwn yn cadw eich gwybodaeth?

### Manylion am y cyfnod cadw

Mae'r cyfnod y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cadw gwybodaeth yn cael ei bennu drwy ofynion statudol neu arferion gorau.

Bydd eich gwybodaeth bersonol yn cael ei chadw am flwyddyn yr hysbysiad + 6 blynedd. Efallai y bydd rhai ceisiadau ac ymatebion yn cael eu cadw am gyfnod hirach, ond bydd y manylion adnabod wedi'u tynnu oddi arnynt.

## Eich Hawliau (gan gynnwys y Weithdrefn Gwynion)

### Eich hawliau dan gyfraith Diogelu Data

Mae'r ddeddf Diogelu Data yn rhoi nifer o hawliau i destun y data (y rheiny y mae'r wybodaeth yn sôn amdanynt):

- Hawl i gael mynediad at ddata gan y testun - Mae ffurflenni cais ar gyfer y broses hon ar gael ar ein gwefan: Ffurflen Gais am Fynediad at Ddata gan y Testun (SAR)
- Yr hawl i gael gwybod
- Yr hawl i gywiro
- Yr hawl i ddileu
- Yr hawl i gyfyngu ar brosesu
- Yr hawl i wrthwynebu
- Yr hawl i gludadwyedd data
- Hawliau mewn perthynas â gwneud penderfyniadau a phroffilio awtomataidd.

Mae rhagor o wybodaeth am eich hawliau ar gael ar y wefan hon: www.ico.org.uk

Er mwyn datgan eich hawliau, cysylltwch â'r maes gwasanaeth y manylir arno ar frig y ffurflen hon.

### Y Weithdrefn Gwynion

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi ymdrin â'ch cais/gwybodaeth, mae gennych yr hawl i gwyno. Cysylltwch â'r Maes Gwasanaeth, y manylir arno ar frig y ddogfen hon, gan amlinellu eich pryderon.

Os byddwch yn parhau'n anfodlon, mae gennych hefyd yr hawl i gwyno wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.  Dilynwch y ddolen hon am ragor o wybodaeth am y broses gwyno.

www.caerffili.gov.uk/My-Council/Data-protection-and-freedom-of-information/Questions-and-complaints?lang=cy-gb

Atodiad A – Deddfwriaeth Gorfodi Cyfraith y Priffyrdd

| Gwall Diogelwch nad yw'n ymwneud ag adeiladu | Deddfwriaeth |
|---|---|
| TIR PERYGLUS CYFAGOS I FFIN Y BRIFFORDD (ATGYWEIRIO ‘R WAL/FFENS) | Gweler Deddf Priffyrdd 1980 Adran 165<br>Ffynhonnell perygl di-ffens |
| DEUNYDDIAU ADEILADAU A PHETHAU ERAILL WEDI’I GWASGARU AR Y BRIFFORDD YN ANNIOGEL | Gweler Deddf Priffyrdd 1980 Adran 149 |
| GATIAU YN AGOR DROS Y BRIFFORDD SY'N BERYGLUS I DDEFNYDDWYR | Gweler Deddf Priffyrdd 1980 Adran 153 |
| GWRYCHOEDD, COED NEU LWYNI YN GORDYFU DROS Y BRIFFORDD O EIDDO PREIFAT - YN BERYGLUS I DDEFNYDDWYR | Gweler Deddf Priffyrdd 1980 Adran 154 |
| BLAENGWRT PREIFAT YN FFINIO Â’R PRIFFYRDD SY'N PERYGLUS I DDEFNYDDWYR | Gweler Deddf Priffyrdd 1980 Adran 165 |
| ARWYDDION SIOP SYMUDOL AR Y BRIFFORDD SY'N BERYGLUS I DDEFNYDDWYR | Gweler Deddf Priffyrdd 1980 Adran 130 a 152 |
| CRAMENNAU MWD/SBWRIEL /CARTHFFRWD / DEUNYDD AR Y BRIFFORDD SY'N BERYGLUS I DDEFNYDDWYR | Gweler Deddf Priffyrdd 1980 Adran 130, 148 a 149 |
| SELER DDIFFYGIOL YN GORCHUDDIO’R DROEDFFORDD | Gweler Deddf Priffyrdd 1980 Adran 180 |
| RHWYSTR PRIFFYRDD | Gweler Deddf Priffyrdd 1980 Adran 143, 149 |
| CERBYD ANGHYFREITHLON YN CROESI’R DROEDFFORDD | Gweler Deddf Priffyrdd 1980 Adran 184 |
| DIFROD I’R PRIFFORDD SIROL | Gweler Deddf Priffyrdd 1980 Adran 131 |
| RAMP ANGHYFREITHIOL AR Y BRIFFORDD | Gweler Deddf Priffyrdd 1980 Adran 149 |
| POSTERI ANAWDURDODEDIG YN GORCHUDDIO ARWYDDION TRAFFIG | Gweler Deddf Priffyrdd 1980 Adran 130, 131 (2) |
| SGIPIAU ADEILADWYR WEDI’U GOSOD AR Y BRIFFORDD MEWN SAFLE SY'N BERYGLUS I DDEFNYDDWYR | Gweler Deddf Priffyrdd 1980 Adran 140 |
| SGIPIAU ADEILADWYR AR Y BRIFFORDD SY'N CYNNWYS DEUNYDDIAU SY'N PERYGLUS I DDEFNYDDWYR Y BRIFFORDD | Gweler Deddf Priffyrdd 1980 Adran 140 |
| ALLWTHIADAU ODDI WRTH ADEILADAU O EIDDO PREIFAT YN BERYGL DEFNYDDWYR | Gweler Deddf Priffyrdd 1980 Adran 130 a 152 |
| RHAFF, GWIFREN NEU OFFER ARALL AR DRAWS Y BRIFFORDD SY’N DEBYGOL O ACHOSI PERYGL | Gweler Deddf Priffyrdd 1980 Adran 162 |
| GWIFREN BIGOG AR FFENS SY'N GYFAGOS I’R PRIFFYRDD YN DEBYGOL O ACHOSI PERYGL I DDEFNYDDWYR | Gweler Deddf Priffyrdd 1980 Adran 164 |
| GWAITH ADEILADU YN DEBYGOL O FOD YN BERYGLUS I DDEFNYDDWYR PRIFFYRDD | Gweler Deddf Priffyrdd 1980 Adran 172<br>Adeiladu palisau |
| HYSBYSFYRDDAU PERYGLUS | Gweler Deddf Priffyrdd 1980 Adran 173 |

# Crynodeb o'r Hysbysiad Preifatrwydd

## Sut y byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth

Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (CBSC) yn prosesu'r wybodaeth sy'n ymwneud ag unrhyw bryder Gorfodi Cyfraith y Priffyrdd penodol, gan gynnwys eich hunaniaeth a'ch manylion cyswllt, at ddibenion arfer pwerau statudol o dan y Ddeddf Priffyrdd 1980.

Er mwyn i brosesu data personol fod yn gyfreithlon o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2016, mae'n rhaid nodi amod dilys o erthygl 6 o'r Rheoliad, a amlinellir isod:

1(e) mae angen prosesu ar gyfer cyflawni tasg a wnaed er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol a freiniwyd yn y rheolwr;

Mae gennych nifer o hawliau mewn perthynas â'r wybodaeth, gan gynnwys yr hawl i gael gafael ar wybodaeth sydd gennym amdanoch chi a'r hawl i gwyno os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y mae eich gwybodaeth yn cael ei phrosesu.

Am ragor o wybodaeth am eich hawliau a sut rydym yn prosesu'ch gwybodaeth, cliciwch ar y ddolen ganlynol:

{Hyperddolen i'r Hysbysiad Preifatrwydd Llawn ar ein gwefan}